**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o’r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Hydref 22ain 2014 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw, Llangernyw

Ymddiheuriadau:

Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Emlyn Williams, Gwydion A Jones, Ifor G Edwards, Gwyn Williams, Gwynfor Davies, Ian Griffith, Cynghorydd Dilwyn O Roberts a’r Clerc.

Roedd y cyfieithydd Dafydd Chilton yn bresennol. Daeth oddeutu 30 o aelodau’r cyhoedd i’r cyfarfod.

31.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i’r aelodau ddatgan cysylltiad mewn eitem ar yr Agenda. Mynegodd Gwydion Jones ac Ifor Edwards gysylltiad ag eitem 6c –Cais Cynllunio Rhif 0/41135 a’u bod yn bwriadu gadael y cyfarfod pan fyddai’r drafodaeth.

31.2 COFNODION – cynigiodd Gwyn Williams ac eiliodd Emlyn Williams a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod Medi 24ain 2014 yn gofnod cywir.

31.3 MATERION YN CODI
31.3.1 TO YR HEN EFAIL, LLANGERNYW- roedd yr Adran Cynllunio am gysylltu â’r perchennog ond PENDERFYNWYD bod y Clerc hefyd i gysylltu â hi ynglŷn a chyflwr peryglus y to.

31.4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
31.4.1 COED WEDI GOR DYFU GER IARD Y STAG – y Clerc i gysylltu â John Edwards eto.
31.4.2 ARWYDD PLANT YN CHWARAE PANDY TUDUR- roedd yr Adran Traffig am ymchwilio i’r mater a gobeithio adrodd nôl erbyn y cyfarfod nesaf.

31.5 MATERION CYNLLUNIO
31.5.1 CAIS CYNLLUNIO RHIF 0/41135 Codi tyrbin gwynt gydag uchder hwb o 30.52m ac uchder blaen llafn o 45.07m gan gynnwys cabinet rheoli a gwifrau cysylltiedig yn Hendre Llwyn y Maen, Llanfairtalhaiarn gan Mr R L Crossley. Gadawodd Ifor Edwards a Gwydion Jones y cyfarfod. Esboniodd Mr Crossley beth oedd y cais dan sylw a’i gynnig o gyfraniad i’r gymuned a bod y llywodraeth yn disgwyl i’r wlad greu mwy o ynni adnewyddol. Roedd y cais ar yr un safle â’r un blaenorol ond yn llai o faint. Gwrandawyd ar sylwadau rhai aelodau’r cyhoedd. Wedi trafodaeth PENDERFYNWYD gwrthwynebu’r cais chwe phleidlais i ddwy am y rhesymau canlynol

1. Gwelediad a maint y datblygiad - byddai'r tyrbin i'w gweld o bell ac mae'r rhy fawr i'r ardal ac yn agos at y briffordd.
2. Mae'r safle mewn ardal tirwedd arbennig lle mae llawer o fywyd gwyllt megis cudyll coch, bwncath a chreyr glas.
3. Mae pryder am y sŵn fydd yn dod o'r tyrbin ac yn amharu ar drigolion lleol.
4. Ofnir os caniateir un tyrbin y bydd yn agor y drws i fwy o dyrbinau ac o bosib 'fferm wynt'.
5. Nid yw ffyrdd a phontydd hynafol yr ardal yn ddigon cryf i ddal pwysau loriau trymion fydd yn cario deunyddiau i'r safle.

6. Mae llawer o wrthwynebiad i'r cais gan drigolion yr ardal a daeth hyd at 30 o bobl i gyfarfod y Cyngor Cymuned i ddatgan eu pryder.
7. Mae digon o ynni gwynt yng Nghymru ar gyfer anghenion y wlad fel y mae heb i ni droi yn ardal ddiwydiannol.
8. Mae'n nodi yn y cais nad yw'r datblygiad ger 'public land' ond mae hynny'n anghywir.

31.5.2 CAIS CYNLLUNIO RHIF 0/41094 1)Dymchwel sied croes (defaid/ceffylau) a chodi stablau newydd/ystafell harneisiau 2) Codi sied storio offer fferm newydd(165m2) 3) Llunio ardal hyfforddi ceffylau (40x20) yn Pen y Bont, ger Maes y Bryn, Llanrwst gan Miss S Evans and Mr P Astle – PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.
31.5.3 CAIS CYNLLUNIO RHIF 0/41115 Tynnu offer cyfathrebu presennol a chodi Gorsaf Ganolog yn eu lle (cymeradwyaeth flaenorol telathrebu) yn 'Communication Mast' Allt Waterloo, Llangernyw gan WHP Wilkinson Helsby. PENDERFYNWYD cefnogi'r cais.

31.6 ADRODDIAD O GYFARFODYDD
31.6.1 Cafwyd adroddiad gan Diane Roberts ar gwrs Gwarchod Data a Rhyddid Gwybodaeth yn yr Wyddgrug. Deallir bod rhaid rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd o weithgareddau a dogfennau'r Cyngor. PENDERFYNWYD i drefnu noson i fynd dros manylion y cwrs a cheisio cael 'powerpoint' i'w ddangos.
31.6.2 Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd o Gynhadledd Un Llais Cymru a gynhaliwyd yn Llanelwedd ar Hydref 4ydd. Y thema oedd Datganoli Gwasanaethau a chafwyd nifer o siaradwyr diddorol megis Nick Bennett, Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Robin Andrew o Gernyw, Athro Dave Adamson cyn Brif Weithredwr Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW). Diolchwyd i'r Cadeirydd a Diane Roberts am fynychu'r cwrs a'r gynhadledd. PENDERFYNWYD i ofyn i Un Llais Cymru ystyried cynnal y Gynhadledd yn Glasdir Llanrwst yn y dyfodol.

31.7 PENTREF GWYTHERIN – adroddwyd nad oedd Cyngor Conwy am gyffwrdd y coed ynn yng nghanol y pentref heblaw am roi gwybod i Scottish Power bod y canghennau yn tyfu yn agos at y gwifrau trydan a'u bod yn ymchwilio i'r wal arall sydd wedi disgyn i'r afon.

31.8 GRANT ADNEWYDDU PENTREFI – trafodwyd y posibilrwydd o wneud cais am grant am feinciau newydd i'r pentrefi a blychau dal blodau. Bydd angen i'r Cyngor gyfrannu 25% o gost y prosiect. Gwnaed ymholiadau gyda Meifod Wood Products am flychau blodau. PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cyfrannau i fyny at £1000 o arian cyfatebol.

31.9 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon rhai dogfennau ar e-bost i aelodau

31.10 GWARIANT CHWARTER- cyflwynodd y Clerc wariant rhwng Gorffennaf a Medi i'r aelodau. Gwelwyd bod y Cyngor wedi gwario dros hanner yr arian o fewn chwe mis. PENDERFYNWYD bod angen rhoi 'Y Gyllideb' ar agenda'r cyfarfod nesaf.

31.11 TOILEDAU LLANGERNYW – deallir gan Cyng Dilwyn Roberts bod Pwyllgor Craffu wedi trafod cais toiledau Llangernyw y noson cynt ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan.

31.12 MATERION LLEOL
31.12.1 Dail yn hel ar allt Hafodunos, ar balmant ger y Cae Criced a mieri dros y llwybr.

31.12.2 Coed Pandy Tudur – mi fyddai’r cynghorwyr lleol yn mynd i olwg y coed. Mynegwyd bod gwir angen tocio rhai o’r coed yn y pentref.
31.12.3 Bron i ddamwain ddigwydd gan fod drych wedi stemio ar waelod Allt Waterloo. Dylid cael mwy o arwyddion ar yr A548 a deallir bod Cyng Ifor Lloyd wedi bod i olwg ffordd Waterloo.
31.12.4 Llawer o dyllau ar allt Cefn Coch ac ochr isaf i Blas yn Trofaeth ger y bont.
31.12.5 Dyddiad cyfarfod o Gronfa Bro Cernyw – 20 Tachwedd.
31.12.6 Noson i drafod Rheolau Sefydlog ac Ariannol – 20 Tachwedd.

31.13 BILIAU

| | |
|---|---|
| Cyflog a Chostau Clerc | £816.89 |
| Un Llais Cymru – Cwrs | £15.00 |
| Cyllid y Wlad – TWE | £ 6.00 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 yh.

*Cymeradwywyd y cofnodion............................................................ Dyddiad..................................*